# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben – y ffeithiau

**Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dod i ben ar gyfer y rhan fwyaf o bobl. Mae gwneud yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth gywir yn bwysig iawn i ni, felly dyma rai o'r ffeithiau allweddol i'ch helpu i ddeall y newidiadau i Lwfans Byw i'r Anabl a'r budd-dal a elwir Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).**

---

Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dod i ben **ar gyfer pobl a anwyd ar ôl 8 Ebrill 1948, ac sy'n 16 oed neu'n hŷn.** Bydd hyn yn digwydd hyd yn oed os oes gennych ddyfarniad amhenodol neu hirdymor. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn anfon llythyr atoch yn eich gwahodd i wneud cais am fudd-dal newydd a elwir Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Bydd y llythyr yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf a phryd. Bydd eich DLA yn dod i ben os na fyddwch yn hawlio PIP ar amser.

**Ni fyddwch yn cael ei effeithio gan y newid hwn ac yn parhau i gael DLA os:**

- cawsoch eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948; neu
- rydych o dan 16 oed.

## Mae PIP yn wahanol i DLA

Bwriad PIP yw helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol a achosir gan gyflyrau iechyd ac anableddau tymor hir. Mae PIP yn cynnwys 2 elfen (rhan):

- byw bob dydd – help i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd;
- symudedd – help i symud o gwmpas.


Gallwch gael naill ai'r rhan byw bob dydd neu'r rhan symudedd ar ei ben ei hun, neu'r ddau ar yr un pryd. Mae pob rhan yn cael ei dalu ar ddwy lefel wahanol: 'cyfradd safonol' a 'chyfradd uwch'.

Mae'r gyfradd y cewch eich talu yn dibynnu ar a yw eich gallu i gyflawni gweithgareddau byw bob dydd neu symudedd yn 'gyfyngedig' neu'n 'gyfyngedig iawn'. Gallwch gael mwy o wybodaeth am PIP yn www.gov.uk/pip/eligibility

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth

## Beth fydd yn digwydd?




Bydd y daflen gan DWP yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf a phryd. Bydd angen i chi ein ffonio os ydych am hawlio PIP. Bydd y llythyr yn dweud wrthych y rhifau i gysylltu â hwy.

Os byddwch yn penderfynu hawlio PIP, byddwn yn anfon ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' atoch. Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn edrych ar eich cais am unrhyw dystiolaeth arall rydych yn ei hanfon i helpu DWP gweithio allan lefel yr help sydd ei angen arnoch.

## Beth yw ymgynghoriad wyneb yn wyneb?



Mae ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn gyfarfod gyda gweithiwr iechyd proffesiynol mewn canolfan asesu neu efallai yn eich cartref. Bydd yn para am tua awr. Bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'ch gallu i gyflawni gweithgareddau ac i gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich cyflwr yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.

## A oes angen i mi hawlio PIP ar hyn o bryd?

Os oeddech yn 16 i 64 oed ar 8 Ebrill 2013 ac rydych yn cael DLA, byddwn yn ysgrifennu atoch yn eich gwahodd i wneud cais am PIP.

Nid oes angen i chi gysylltu â ni nes i ni ysgrifennu atoch oni bai bod newid yn y ffordd y mae eich cyflwr neu anabledd yn effeithio arnoch. Ar gyfer y newidiadau hyn, dylech gysylltu â Llinell Gymorth Lwfans Byw i'r Anabl.
Mae'r manylion cyswllt ar gael yn **www.gov.uk/disability-benefits-helpline**

## A fyddaf yn cael PIP yn awtomatig?

Nid oes trosglwyddiad awtomatig o DLA i PIP. Gan fod PIP a DLA yn fudd-daliadau gwahanol, gyda gwahanol feini prawf asesu, ni fyddwch yn cael PIP yn awtomatig oherwydd eich bod yn gymwys ar gyfer DLA. Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch, bydd angen i chi gysylltu â DWP i roi gwybod iddynt os byddwch yn penderfynu gwneud cais am PIP neu beidio. Os nad ydych yn hawlio o fewn yr amser sydd ar gael, bydd eich taliadau Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth

## Mae gennyf ddyfarniad amhenodol neu ddyfarniad am fyth ar gyfer DLA, felly a fyddaf yn aros ar DLA?

Ni fyddwch yn aros ar DLA ac ni fyddwch yn cael PIP yn awtomatig oherwydd eich bod wedi cael dyfarniad DLA ar sail amhenodol. Mae hyn oherwydd bod DLA yn dod i ben ac mae PIP yn fudd-dal gwahanol, sy'n cael ei asesu mewn ffordd wahanol. Bydd DWP yn anfon llythyr atoch ac yn eich gwahodd i wneud cais am PIP. Os nad ydych yn penderfynu gwneud cais am PIP, neu nad ydych yn gwneud cais am PIP mewn pryd, yna bydd eich taliadau Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben.

## Os nad wyf yn gymwys i gael PIP, a fydd fy nhaliadau DLA yn dod i ben ar unwaith?

Os nad ydych yn gymwys i gael PIP, byddwn yn rhoi'r gorau i dalu eich DLA 28 diwrnod ar ôl eich diwrnod talu nesaf yn dilyn y penderfyniad ar eich cais am PIP.

## Os na fyddaf yn gwneud unrhyw beth pan fyddaf yn derbyn fy llythyr, a fydd fy nhaliadau DLA yn dod i ben ar unwaith?

Bydd gennych 28 diwrnod i wneud cais am PIP pan gewch eich gwahodd i wneud cais. Os na fyddwch yn cysylltu â ni, ar ôl 4 wythnos gallai eich Lwfans Byw i'r Anabl cael ei atal ac efallai na fyddwch yn cael ei dalu. Os ydym yn dal heb gael unrhyw gyswllt gyda chi, ar ôl 4 wythnos arall gallai eich cais gael ei gau.

## Os nad wyf yn penderfynu gwneud cais am PIP, pryd y bydd fy nhaliadau DLA yn dod i ben?

Os byddwch yn cysylltu â ni i ddweud wrthym nad ydych am hawlio PIP, bydd eich taliadau Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben 14 diwrnod ar ôl eich diwrnod talu nesaf.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth

## Rwyf dros 65 oed - oes rhaid i mi wneud cais am PIP?

Os cawsoch eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948, ni fyddwch yn cael eich effeithio gan y newid hwn a byddwch yn parhau i gael DLA os ydych eisoes yn ei gael, cyn belled ag y byddwch yn parhau i gwrdd â'r amodau hawlio Lwfans Byw i'r Anabl. Nid ydych yn gymwys i hawlio PIP, felly ni fyddwch yn cael llythyr gan DWP yn eich gwahodd i wneud cais amdano.

## A fydd fy arian yn newid?

Mae'r cyfraddau ar gyfer PIP yn wahanol i DLA. Bydd pa arian a gewch yn dibynnu ar sut y mae eich cyflwr yn effeithio arnoch. Gallech gael mwy nag, yr un fath â neu'n llai na'ch DLA, neu efallai na fyddwch yn gymwys i gael PIP o gwbl.

Os byddwch yn gymwys i gael PIP, byddwn yn adolygu eich dyfarniad yn rheolaidd. Gallwch weld y cyfraddau PIP presennol yn **www.gov.uk/pip/what-youll-get**

## Mae fy mhlentyn o dan 16 oed – a fydd eu DLA yn dod i ben?

Na. Bydd plant o dan 16 oed yn parhau i gael DLA. Fodd bynnag, pan fydd eich plentyn yn cyrraedd 16 oed, cânt eu gwahodd i wneud cais newydd am PIP yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cysylltu â chi wrth i'ch plentyn nesáu at eu pen-blwydd yn 16 oed i'ch hysbysu o hyn. Nid oes angen gwneud dim byd nes y derbynnir y gwahoddiad i wneud cais am PIP. Os yw eich plentyn yn penderfynu gwneud cais am PIP, byddant yn parhau i dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl hyd nes y bydd penderfyniad ar y dyfarniad PIP wedi cael ei wneud.

## A fyddaf yn colli fy nghherbyd Motability?

Os ydych yn hawlio DLA ac yn mynd ymlaen i hawlio PIP ac yn gymwys ar gyfer Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd o PIP, byddwch yn gymwys i ddefnyddio'r Cynllun Motability.

Os byddwch yn dewis peidio â hawlio PIP, neu nad ydych yn gymwys ar gyfer Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd o PIP, ni fyddwch yn gallu prydlesu cerbyd o'r Cynllun. Bydd Motability yn cysylltu â chi i roi gwybod pa gymorth y gallant ei roi i chi. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn **www.motability.co.uk**

# A oes angen mwy o wybodaeth arnoch?

**Cewch fwy o wybodaeth yn www.gov.uk/dla-ending**

Adran Gwaith a Phensiynau

Cefnogi eich annibyniaeth